

## Crynodeb

Mae Cymru wedi wynebu heriau economaidd dwys ers sawl degawd, yn bennaf o ganlyniad i ddirywiad diwydiannol a chynnyrch domestig gros (CDG) sydd yn gyson yn is na'r cyfartaledd Ewropeaidd. Yn arbennig o ganlyniad i'r amddifadedd is-ranbarthol, gyda CDG ar gyfartaledd y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd 75% yn is na chyfartaledd yr UE, mae Cymru wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddiant yr UE, sydd ar hyn o bryd o werth tua £375m y flwyddyn, sef pedair gwaith yn fwy na chyfartaledd y pen yn y DU, ar gyfer cefnogi busnesau, isadeiledd, swyddi a sgiliau. Y ddiweddar, yn unol â chytundeb gyda'r UE, addasodd Llywodraeth Cymru nawdd Strwythurol a Buddsoddiant yr UE fel rhan o'i hymateb i heriau pandemig COVID-19, yn ogystal â'r nawdd a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU trwy gyllid canlyniadol Barnett.

Serch hynny, wedi diwedd y cyfnod pontio wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd y DU bellach yn medru derbyn nawdd Strwythurol a Buddsoddiant. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn 2017 ei bod yn bwriadu creu Cronfa Ffyniant Gyffredin i gymryd lle arian Ewropeaidd, ond prin yw'r manylion am agweddau allweddol y gronfa, gan gynnwys faint y bydd Cymru yn ei dderbyn dan y trefniadau newydd, sut y bydd y gronfa yn cael ei gweinyddu a phwy mae'n ei thargedu. Gyda hyn mewn golwg, edrychom ar effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru a'r blaenoriaethau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, o ystyried effaith COVID-19 ar y tirwedd economaidd yng Nghymru.

Rydym yn siomedig bod Llywodraeth y DU yn ymddangos fel petai wedi gwneud ychydig iawn o gynnydd wrth ddatblygu'r gronfa fydd yn cymryd lle nawdd Strwythurol a Buddsoddiant, a bod addewidion mynych i gynnal ymgynghoriad wedi methu, sydd yn dangos diffyg blaenoriaeth. Dylai Llywodraeth y DU roi sicrwydd ar frys a nodi dyddiad penodol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys ei strwythur a sut y bydd yn cael ei hariannu a'i gweinyddu. Dylid cynnal ymgynghoriad gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer y Gronfa yn sgil COVID-19 a darparu sicrwydd na fydd y nawdd presennol gan yr UE yn dod i ben yn ddisymwth ym mis Ionawr 2021. Gan fod y nawdd Strwythurol a Buddsoddiant wedi ei addasu i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ymateb i COVID-19, mae'n bwysig fod y gwaith hwn yn medru parhau ar ôl mis Ionawr ac yn ystod y pandemig.

Tra bod rhai sectorau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi elwa o nawdd Strwythurol a Buddsoddiant yr UE, mae'n amlwg nad yw'r nawdd hwnnw wedi arwain at drawsffurfio i economi Cymru – a doedd dim disgwyl iddo allu gwneud hynny ar ei ben ei hun. Mae Cymru yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer Nawdd Strwythurol yr UE ac ar ei hól hi'n sylweddol o gymharu â rhanbarthoedd eraill y DU a'r UE.

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig cyfle i ailosod ac ail-werthuso blaenoriaethau economaidd Cymru ar ôl Brexit ac ar ôl COVID-19, ac i ddatblygu Cronfa Ffyniant Gyffredin sydd yn mynd i'r afael â'r rhesymau dros dangyflawni economaidd Cymru. Dylai adnabod y rhesymau y tu ôl i heriau economaidd Cymru, gan gynnwys cynhyrchiant a sgiliau, fod yn amcan craidd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dylai'r swm ariannol fod yn seiliedig ar anghenion a dylid cynnal y swm presennol mewn

termau real o leiaf. Dylid ystyried y cyllid ar sail hirdymor, ond dylai hefyd fod yn hyblyg i ymateb i iechyd yr economi wrth i Gymru, a gweddill y DU, geisio adfer yn sgil pandemig COVID-19.

Er gwaethaf yr adborth cadarnhaol a dderbyniom ynghylch perfformiad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth weinyddu nawdd Strwythurol a Buddsoddiant, mae'n glir i nifer o'r bobl a ymatebodd fod system bresennol y nawdd strwythurol wedi bod yn rhy ganolog a biwrocraidd. Mae datblygu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gyfle i weithredu system weinyddu symlach.

Ceir amwysedd sylweddol ynghylch lle fydd y grym dros y Gronfa Ffyniant Gyffredin, er gwaethaf addewidion mynych gan Lywodraeth y DU y byddai'n parchu setliadau datganoli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n glir, o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil Marchnad Fewnol, a ydy San Steffan yn bwriadu goruchwylio gweinyddu'r Gronfa yn uniongyrchol, neu a ydy'r pwerau sy'n ymwneud â chymorth ariannol yn y Bil i'w gweithredu ar wahân i'r Gronfa.

Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth barn ynglŷn â lle y dylai'r grym a'r cyfrifoldeb dros y Gronfa fod, ond byddai Llywodraeth y DU yn annoeth i golli neu anwybyddu'r arbenigedd sydd wedi cronni yng Nghymru. Galwn ar Lywodraeth y DU i ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol fydd yn atgyfnerthu sut i weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dylai sicrhau cydweithio a phartneriaeth rhwng yr holl randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector.

Wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac yn sgil effaith pandemig COVID-19, mae'r cyfnod presennol yn un eithriadol ac yn gyfle i lywodraethau'r DU ddylunio system nawdd strwythurol a rhanbarthol mwy ymatebol a hyblyg.